# Trefnydd Gwybodaeth TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Anghenion plant a phobl ifanc (2.4.1)

cbac wjec

Os bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol o blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol arnynt, mae 'ddyletswydd arnynt i asesu' os oes posibilrwydd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol neu chymhleth. Dylid cwblhau'r asesiad hwn mewn modd amserol. Rhaid bod asesiadau yn cael eu hategu gan amrywiaeth o egwyddorion gwahanol, ond rhaid ystyried canlyniadau personol y plentyn, y person ifanc a'r teulu uwchlaw popeth arall.

Gall cyfnodau pontio addysgol, profiadau a digwyddiadau bywyd naill ai gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar wydnwch plant a phobl ifanc. Gwydnwch yw gallu plentyn neu berson ifanc i addasu wrth wynebu trallod. Gall hyn hefyd effeithio ar y gofal a'r cymorth mae unigolion yn eu cael yn y lleoliad gofal plant.

Mae plant a phobl ifanc yn mynd drwy gyfnodau pontio addysgol, yn cael profiadau ac yn wynebu digwyddiadau mewn bywyd. Yng Nghymru, bydd pob plentyn a pherson ifanc yn dilyn Fframwaith newydd y Cwricwlwm i Gymru. Dyma'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei gynllunio yng Nghymru a'r nod fydd helpu plant gyda phedwar maes allweddol: bod yn fwy uchelgeisiol, mentrus a chreadigol, moesegol a gwybodus ac iach a hyderus.

Mae gan blant a phobl ifanc anghenion ar bob cam datblygiadol. Wrth ystyried anghenion plant a phobl ifanc ar gamau datblygiadol, mae'n bwysig ystyried plentyn a pherson ifanc yn gyfannol. Roedd hierarchaeth anghenion Maslow yn awgrymu bod angen diwallu anghenion corfforol ar lefel is megis bwyd, dillad a lloches cyn y gall plant a phobl ifanc wireddu eu potensial yn llawn. Mewn gwirionedd, wrth ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc, mae'n bwysig bod eu holl anghenion yn cael eu hystyried.

Dyma rai rhwystrau y gall plant a phobl ifanc eu profi. Acronym Saesneg defnyddiol i'w gofio yw ***Legal.***

Rhwystrau ieithyddol, Meini prawf cymhwyso, Lleoliad daearyddol, Mynediad, Diffyg gwybodaeth (*Language barriers, Eligibility criteria, Geographical location, Access, Lack of information).*

**Anghenion plant/pobl ifanc**

- corfforol
- deallusol/ gwybyddol/ iaith
- emosiynol
- cymdeithasol.

Wrth ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mae'n bwysig diwallu'r anghenion hyn drwy ofal plentyn-ganoledig. Mae hyn yn agwedd allweddol ar unrhyw asesiad neu asesiadau parhaus mae plant a phobl ifanc yn eu profi.

Mae dull plentyn-ganoledig yn ymwneud â'r canlynol:

"Dylai ymgysylltu â'r hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud am yr hyn sy'n digwydd iddynt, a gwrando arnynt, fod yn elfen hollbwysig o ymyrraeth a chymorth effeithiol".

"Mae dull plentyn-ganoledig yn ystyried y plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau fel partner cyfartal wrth gynllunio, datblygu a monitro ei ofal i wneud yn siŵr ei fod yn diwallu ei anghenion; anghenion y plentyn fydd y flaenoriaeth ac nid anghenion y gwasanaeth".

Gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog drwy'r canlynol:

- cydgynhyrchu gan blant a phobl ifanc
- cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc
- gwybod beth yw dewisiadau/ cefndir y plentyn/person ifanc
- galluogi llais, dewis a rheolaeth y plentyn/person ifanc.